© Colonel

Press release | 18.09.2017

Amddiffyn hawliau democrataidd yng Nghatalwnia

Datganiad i'r Wasg gan ASE EFA Jill Evans

Mae ASE Plaid Cymru **Jill Evans** wedi cyd-lofnodi cwestiwn i'r Comisiwn Ewropeaidd yn condemnio ymddygiad llywodraeth Sbaen wrth iddo geisio atal refferendwm annibyniaeth i Gatalwnia.

Daw hyn yn dilyn adroddiadau fod erlynydd cyffredinol Sbaen wedi bygwth 712 o Feiri yng Nghatalwnia a etholwyd yn ddemocrataidd gydag achosion llys os byddant yn cefnogi cynnal y refferendwm.

Mae Senedd Catalwnia wedi pasio deddf i alw refferendwm ar annibyniaeth o Sbaen i'w gynnal ar 1 Hydref eleni.

Bydd Jill Evans ASE yn rhan o'r ddirprwyaeth swyddogol fydd yn arsylwi'r refferendwm.

Dywed **Jill Evans ASE**:

"Mae bygwth swyddogion etholedig gyda chael eu harestio am amddiffyn penderfyniad democrataidd i gynnal refferendwm yn warthus.

"Ymddengys fod llywodraeth Sbaen yn benderfynnol o amharu ar refferendwm democrataidd trwy fygythiad.

"Mae gan y llywodraeth ymrwymiadau fel aelod o'r UE i barchu penderfyniadau democrataidd a hawliau sylfaenol dinasyddion yr UE.

"Rydym yn gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd ystyried y materion hyn ar frys, yn enwedig y bygythiadau yn erbyn swyddogion etholedig."

Recommended

Study

©abraham osorio



REFORMING FRONTEX | A HUMAN RIGHTS - BASED REVIEW

01.07.2026

Press release

Nikolaus Riss



[MEPs denied proper inspection of detention center in G…]

29.06.2026

Press release

KinoMasterskaya



[Returns Regulation sets Europe on shameful path]

02.06.2026

Press release



[EU cannot afford to be at the mercy of Putin's puppets…]

23.02.2026

Responsible MEPs



Jill Evans

Member

Please share

- E-Mail